**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/3676/22

Huw Irranca-Davies, MS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

9 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw Irranca-Davies

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2022 ynglŷn â phryderon y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd ac Isadeiledd ynghylch Bil Amddiffyn yr Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru).

Pan ysgrifennodd y Llywodraeth at y Pwyllgor Busnes am hyn ym mis Gorffennaf, roedd rheswm deublyg pam y dylid hwyluso hyn:

- Yn gyntaf, roedd angen gweithredu'r gwaharddiad yng Nghymru ar y plastigau untro sy'n cael eu taflu fel sbwriel amlaf, a chadw i fyny gyda gwaharddiadau cyfatebol yng ngweddill y DU.
- Yn ail, cais y Cwnsler Cyffredinol yn y trafodion cyfreithiol mewn perthynas â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (UKIMA) oedd gerbron y Goruchaf Lys ar y pryd.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes, er mwyn galluogi'r Bil i ddarparu'r enghraifft ymarferol y gofynnodd y Llys amdano, y byddai angen ei basio gan y Senedd cyn gynted â phosib. Dyma oedd y sail y rhoddodd y Pwyllgor Busnes gymeradwyaeth ar gyfer amserlen hwylus.

Ers hynny, caeodd Dyfarniad y Goruchaf Lys a nodwyd yn Natganiad Ysgrifenedig y Cwnsler Cyffredinol ar 18 Awst y llwybr penodol o ymgyfreitha sy'n cael ei ddilyn ar y pryd. Fodd bynnag, gadawodd y drws ar agor i'r dadleuon gael eu hystyried mewn achos yn y dyfodol. Felly nid yw rhesymeg y llywodraeth dros yr amserlen hwylus wedi newid.

Nid yw ein penderfyniad (a phenderfyniad y Llywydd) bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn ei atal rhag darparu enghraifft o ddeddfwriaeth Senedd y gellir profi dadleuon ynghylch UKIMA yn eu herbyn wrth ymgyfreitha yn y dyfodol. Yn y cyfamser, o ystyried ein bod wedi penderfynu bod y Bil o fewn cymhwysedd, mae ein safbwynt yn parhau i fod yn gwbl effeithiol ac yn orfodadwy.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r amserlen hwylus, tra'n fyrrach o hyd, wedi caniatáu i'r Bil gwblhau'r holl gamau angenrheidiol. Er mwyn cynorthwyo'r broses graffu, ar y 15 Awst, cyhoeddais ddrafft o'r Bil i roi cyfle i Aelodau Senedd a rhanddeiliaid sydd â diddordeb weld cwmpas a chyfeiriad arfaethedig y Bil. Rhoddodd hefyd gyfle i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ymgynghori ar y cynnig.  Yn yr un modd, cyn dadl Cam 2, ysgrifennais atoch i nodi'r newidiadau yr oeddem yn bwriadu eu cynnig.

Mae'r Bil wedi derbyn cefnogaeth o bob rhan o'r Senedd ac rwyf wedi bod yn falch o weithio gyda'r Pwyllgorau ac aelodau o wahanol bleidiau gwleidyddol i'w wella. Bu hyn yn enghraifft wirioneddol o gydweithio.  Rwy’n falch bod y Bil wedi ei gymeradwyo gan y Senedd nos Fawrth ac y bydd yn gadael gwaddol a fydd yn rhywbeth y gallwn ni i gyd fod yn falch ohono.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change